# Ceisiadau ar Hap



**Caiff ceisiadau ar hap eu defnyddio i ymgeisio am swyddi sydd heb eu hysbysebu. Fel rheol, byddant yn cynnwys CV wedi'i ymchwilio'n drylwyr ac wedi'i dargedu at y swydd, gyda llythyr cyflwyno wedi'i anelu at berson sydd wedi'i enwi. Mae patrwm y llythyr cyflwyno bach yn wahanol i un am swydd sydd wedi'i hysbysebu.**

## ➲ Pryd mae eu defnyddio

- Os hoffech chi fynd i faes gwaith lle mae'r cyfleoedd yn gyfyngedig neu mor boblogaidd nes y gall y cyflogwyr fforddio dibynnu dim ond ar geisiadau ar hap i lenwi eu swyddi gwag yn hytrach na'u hysbysebu.
- Os ydych yn chwilio am waith yn ystod y gwyliau neu am gyfleoedd gwaith sydd ddim yn cael eu hysbysebu yn ffurfiol.
- Os hoffech chi weithio mewn ardal daearyddol benodol neu faes gwaith arbenigol.
- Os ydych yn anelu'ch cais at sefydliadau bach nad ydyn nhw'n recriwtio'n aml iawn.

## ➲ Mae angen i chi wybod yr hyn y gallwch ei gynnig a defnyddio eich sgiliau rhwydweithio

- Defnyddiwch eich gwybodaeth o'r sgiliau a phriodoleddau lefel gradd yr ydych chi'n gallu cynnig a'ch sgiliau rhwydweithio i'ch helpu i ymchwilio ar gyfer eich cais ar hap ac yna dargedu'r cais hwnnw. Fyddwch chi ddim yn barod i wneud eich cais ar hap tan i chi gael gwybod cymaint ag y gallwch chi a chanfod sut mae argyhoeddi cyflogwr mai chi yw'r union un iddo ef neu hi. I gael gwybod rhagor, darllenwch ein taflen "Rhwydweithio".

## ➲ Ystyriwch beth y mae'r cyflogwyr fod yn chwilio amdano. Faint o'u meini prawf yr ydych chi'n debyg o'u bodloni?

- RHAID i'ch cais ar hap fod wedi'i anelu at y cyflogwr penodol. Os bwriadwch chi dargedu llu o gyflogwyr wrth ddechrau ysgrifennu, mae'n fwy na thebyg mai'r peth gorau fydd llunio CV yn gyntaf gan ddangos "popeth" y gallech chi ei gynnig ac yna'i addasu i ateb anghenion y cyflogwr penodol. Dychmygwch fod yn sefyllfa pob cyflogwr unigol yr ydych chi'n ei dargedu ac ystyriwch sut a pham y gallai elwa o'ch cael chi i weithio iddo neu iddi. Cofiwch addasu'r CV a'r llythyr cyflwyno.

## ➲ Ambell air i gall ynghylch pryd mae anfon cais ar hap

- **Gwerthwch eich hun.** Gwnewch yn siŵr y cymer eich targed yr amser i ddarllen eich llythyr. Gwnewch yn siŵr y gallwch chi brofi pob un o'ch honiadau.
- **Targedwch eich cais ar hap at y person priodol.** Rhaid i lythyr ar hap fod wedi'i anelu'n glir at darged priodol sydd wedi'i enwi. Fel arall, bydd yn hawdd anwybyddu'ch llythyr ac fe allai fynd yn syth i'r fasged sbwriel.
- **Yn aml, bydd yr hysbysebion mewn papurau newydd yn rhoi enw a chyfeiriad** hyd yn oed os nad ydynt yn hysbysebu'r swydd a fyddai'n ddelfrydol i chi. Ffoniwch a gofynnwch am enw'r sawl sy'n gyfrifol am recriwtio yn yr adran, y rôl neu'r maes perthnasol. Fel rheol, bydd staff y dderbynfa'n barod i'ch helpu.
- **I annog y targed i ymateb,** cynhwyswch amlen â chyfeiriad a stamp arni gyda'ch llythyr, ond cofiwch fod yn barod i fynd ymhellach ar drywydd eich cais ar hap yn ddiweddarach.
- **Cysylltwch ymhellach** drwy wneud galwad ffôn gwrtais a dywedwch wrth eich targed, yn eich llythyr cyflwyno, eich bod yn bwriadu gwneud hynny. Cynlluniwch yr alwad yn ofalus a gwnewch hi'n llawn brwdfrydedd. Ceisiwch sicrhau rhagor o gysylltiadau os bydd hynny'n briodol (daliwch i rwydweithio!).
- **Gadewch eich CV a'ch llythyr cyflwyno gyda'r unigolyn cywir** os penderfynwch alw heibio eich hun. Os byddwch chi'n ffonio'ch cyswllt yn gyntaf, defnyddiwch y dogfennau hynny i'ch helpu i sôn amdanoch eich hun ac yna anfonwch hwy ymlaen at eich cyswllt.
- **Os nad oes gan y cyflogwr swydd wag,** gofynnwch am gael eich cadw ar y ffeil a chysylltwch unwaith eto ymhen 8-10 wythnos. Er mai yn y fasged sbwriel y bydd rhai cyflogwyr yn ffeilio ceisiadau ar hap, efallai y byddent yn cadw'r rhai eithriadol os ydynt yn disgwyl i swydd ddod yn wag.


© 2019 Gwasanaeth Gyrfaoedd, Prifysgol Aberystwyth.

- **Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofnodi** pwy yr anfonoch chi eich cais ato/ati, pryd y gwnaethoch ei anfon a phryd y bwriadwch gysylltu ymhellach os byddwch chi'n anfon llawer o geisiadau ar hap at gyflogwyr.

- **Peidiwch â digalonni os na chewch chi ymateb cadarnhaol ar unwaith.**

### ➲ Eich llythyr cyflwyno

**Y drefn ffurfiol arferol**, fel y dyddiad, gwybodaeth ynghylch cysylltu â chi, enw'ch targed ac ati. Cewch wybod rhagor yn nhaflen y Gwasanaeth Gyrfaoedd "Llythyrau cyflwyno".

**Paragraff un neu ddau — pam y cyflogwr hwn?** Esboniwch yn glir pam yr hoffech weithio iddo/iddi.

**Paragraff un neu ddau — pam y gwaith hwn?** Esboniwch eich diddordeb yn y gwaith hwn a sut mae'n cysylltu â'ch cynlluniau ar gyfer eich gyrfa, a dywedwch a ydych chi'n chwilio'n bennaf am brofiad gwaith, a oes angen i chi gael eich talu ac a ydych chi'n chwilio am swydd dros dro neu swydd barhaol.

**Paragraff tri — y gwaith ei hun** esboniwch pa waith neu bethau eraill y gallech ei wneud dros y cyflogwr. Bydd angen i chi ganolbwyntio'n glir wrth lunio'r rhan hon o'r llythyr er mwyn helpu'ch targed i ddeall beth yr ydych yn ceisio'i gyflawni. Cofiwch fod angen i chi gyplysu cynigion pendant â pharodrwydd i fod yn hyblyg.

**Paragraff pedwar — cymwysterau, gwybodaeth, profiad a sgiliau** rhowch dystiolaeth i ategu'ch cais.

**Paragraff pump — cysylltu pellach** mynegwch ddiddordeb mewn cyfarfod i drafod y cyfleoedd i gael swydd. Nodwch pryd y byddwch chi'n ffonio i gysylltu â'ch targed, sef ymhen wythnos neu ddwy, efallai. Bydd hynny'n annog eich targed i ystyried eich cynnig a pharatoi ar gyfer eich galwad ffôn.

### ➲ Adnoddau i'ch helpu i lunio cais ar hap

- Defnyddiwch eich Gwasanaeth Gyrfaoedd i gael cymorth ymarferol wrth dargedu'ch CV a llunio llythyr cyflwyno. Dewch a nhw i sesiwn galw-heibio.

- Ewch i weithdy a/neu manteisiwch ar y sesiynau galw-heibio gydag ymgynghorydd gyrfaoedd i gael sesiwn o chwarter awr gydag ef neu hi, neu archebwch apwyntiad hwy na hynny ymlaen llaw.

- Ewch i'n gwefan i gael gafael ar gyfoeth o adnoddau.

- Darllenwch a gweithredwch ar daflenni Gwasanaeth Gyrfaoedd Aberystwyth, megis:

  CV
  Llythyrau Cyflwyno
  Gair am Gyfweliadau
  Rhwydweithio
  Beth Mae Cyflogwyr Ei Eisiau?
  Profiad Gwaith

**Cofiwch—gallech chi fod yr union berson y mae arnynt ei angen. Mae cyflogwyr yn bobl brysur. Mae hysbysebu a recriwtio'n ddrud ac yn cymryd amser maith. Os ymchwiliwch chi'n gelfydd a thargedu'ch cais ar hap yn ofalus, gallai gyrraedd ar yr union foment iawn!**

## Lleoliad a Manylion Cysylltu


➲ **Gwasanaeth Gyrfaoedd**
Undeb y Myfyrwyr (drws nesaf i Siop yr Undeb)
Ar agor: Dydd Llun - Dydd Iau 9am – 5pm a Dydd Gwener 9am – 4pm
Ar gau rhwng 1pm a 2pm
Ffôn: 01970 622378
E-bost: careers@aber.ac.uk




This information can be made available in alternative formats.
Mae'r wybodaeth hon ar gael yn Saesneg. This information is available in English.
© 2019 Gwasanaeth Gyrfaoedd, Prifysgol Aberystwyth.